(Parhad o dudalen 12)

ger y pwll glo, yn dilyn y gyflafan. Ymddengys hyn, yn od i ni heddiw ond ar y pryd roedd yn arferiad derbyniol. Ceir darluniau o bob math o drychinebau ar gardiau post, megis damweiniau car, llong-ddrylliadau a hyd yn oed ledaeniad twymyn yr ymysgaroedd (typhoid) a ddigwyddodd yn Lincoln yn 1905. Os tybid fod marchnad yna byddai'r cardiau yn cael eu cynhyrchu. Ychydig iawn o werthu oedd ar y rhai sâl. O ganlyniad y mae casglwyr yn fodlon talu prisiau uchel amdanynt oherwydd eu bod mor brin.

Yn 1895 bu Warren Williams (1863-1918), arlunydd o Gonwy, yn arddangos ei waith yn y Coleg Arlunio Brenhinol. Erbyn 1904 defnyddid ei ddarluniau, yn enwedig ei luniau o Gymru, gan gwmni E. T. W. Dennis ar gardiau post. Aeth ymlaen i lunio cardiau post ar gyfer nifer fawr o gwmnïau. Ef yw'r arlunydd mwyaf adnabyddus o Gymru a ddewisodd gyhoeddi ei waith yn y dull hwn. Y mae ei gynnyrch toreithiog o gardiau post yn haeddu gwaith ymchwil pellach. Yr oedd yr arlunwyr a gyfrannai i'r farchnad hon yn amrywio yn ôl safon a maint eu cynnyrch. Roedd tirluniau o Ogledd Cymru yn arbennig o boblogaidd.

Un dosbarth o gardiau sy'n perthyn i'r 'oes aur' nad ydym wedi eu crybwyll hyd yn hyn yw 'Cardiau Hysbysebu'. Rhoddwyd y rhain yn rhad ac am ddim gyda chynnyrch megis sebon, bwyd ci a cocoa. Roedd perchnogion gwestai yn hoff iawn o'u gadael yn yr ystafelloedd ar gyfer eu gwesteion. Hefyd byddai cwmnïau rheilffyrdd yn gwerthu cyfresi lawer ohonynt, yn aml am bris isel iawn. Gweler cerdyn 'London and North Western Railways' yn hysbysebu Llandudno c.1904. Cyhoeddodd 'L&NWR' bron i fil o wahanol gardiau post, a haerent eu bod wedi gwerthu 11 miliwn o gardiau erbyn 1914.

Ond os enillodd y cerdyn post boblogrwydd yn gyflym, fe ddaeth y cwymp yr un mor gyflym. Un o'r prif resymau oedd codi pris cludo i geiniog yn 1919. Hefyd roedd modd i rai ffonio adref bellach, ac roedd yn well gan lawer dalu i weld ffilm mewn sinema na chasglu cardiau post.

Nid yw ansawdd a chynllun cardiau post cystal o'r 1920au ymlaen. Bu lleihad yn nifer y cyhoeddwyr bychan lleol ac ystrydebol iawn oedd y golygfeydd a geid bellach. Bu twf bychan ym mhoblogrwydd cardiau post yn ystod y 1950au, ond doedd hyn yn ddim o'i gymharu â'r twf a brofwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Dewisodd nifer o ffotograffwyr yn ddiweddar gyhoeddi eu gwaith ar ffurf cyfresi o gardiau post. Yng Nghymru bu Charles a Patricia Aithie, Janet Baxter, Liz Fleming-Williams, Jeremy Moore, Dave Newbould a Niel Turner, ymysg eraill, yn cyfrannu at 'oes aur newydd' y cerdyn post. Y mae'r amrywiaeth rhyfeddol o gardiau post sydd i'w cael yng Nghymru heddiw yn bwnc y gellid traethu'n hir iawn amdano.

Tasg amhosibl fyddai enwi pawb a fu'n gysylltiedig â datblygiad y cerdyn post darluniadol yng Nghymru. Ond gobeithio bod yr enghreifftiau a ddefnyddiais yn yr erthygl hon wedi rhoi syniad i chi o'r amrywiaeth o gardiau post sydd i'w cael, ac o bosibl sbarduno ambell aelod o'r Gymdeithas i ddechrau casglu!

# AR WERTH

***Hanes Methodistiaeth Dyffryn Clwyd: Dosbarth Rhuthyn (o'r dechreu hyd ddiwedd y flwyddyn 1913).*** Pierce Owen. Cyfarfod Misol Dyffryn Clwyd, 1921. £13.

***The Heart of North Wales . . .*** W. Bezant Lowe. 2 volumes. Llanfairfechan, the Author, 1912-27. £100.

***Llenyddiaeth Cymru: rhyddiaith o 1540 hyd 1660.*** W. J. Gruffydd. Wrecsam, Hughes a'i Fab, 1926. £7.

***Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900.*** Thomas Parry. Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru, 1964. £9.

***Beirdd a Bardd-rin Cymru Fu.*** Timothy Lewis. Aberystwyth, Gwasg y Fwynant, 1929. £23.

***Mabinogi Cymru.*** Timothy Lewis. Aberystwyth, Gwasg y Fwynant, 1931. £22.

***Hanes Llenyddiaeth Gymreig o'r flwyddyn 1300 hyd y flwyddyn 1650.*** R. I. Prys (Gweirydd ap Rhys). Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol (1883). £23.

***Peniarth 49.*** Copïwyd a golygwyd gan T. Parry. Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru, 1929. (Adysgrifau o'r Llawysgrifau Cymraeg, 6). £4.

***Élements de la grammaire Celtique . . .*** H. D'arbois de Jubainville. Paris, Albert Fontemoing, 1903. £9.

***Keltobé.*** J. A.Maudit. Prati, 1979. £13.

*Mae'r cyfrolau mewn cyflwr da. Cludiant yn ychwanegol.*

Alun Hughes, Talwrn Glas, Afonwen, Yr Wyddgrug, Clwyd CH7 5UB. Ffacs: (01352) 720413.

* * * *

***The Little Kingdom.*** Emyr Humphreys. London, Eyre and Spottiswoode, 1946.

***Break in Harvest and other poems.*** Roland Mathias. London, Routledge, 1946.

***Bywyd a Gwaith Gwilym Bowyer.*** W. Eifion Powell. Abertawe, Gwasg John Penry, 1968.

***Coginiaeth a Threfniadaeth Deuluaidd . . .*** S. A. Edwards, Dinbych, T. Gee a'i Fab, 1889.

***Islwyn's English Poems.*** Edited by Hannah Williams and Tom Evans. Cardiff, The Educational Publishing Company, 1913.

***Welsh for the English, English for the Welsh . . .*** O. Jones-Owen. Wrexham, Hughes and Son (1925).

***Mabon (William Abraham, 1842-1922): a study in trade union leadership.*** E. W. Evans. Cardiff, University of Wales Press, 1959.

***Les littératures Celtiques . . .*** Georges Dottin. Paris, Payot, 1924.

***The Evolution of the Art of Music.*** C. Hubert H. Parry. 6th edition. London, Kegan Paul, Trench & Co., 1917.

Mrs Mari Ellis, 4 Laura Place, Aberystwyth, Dyfed. Ffôn: Aberystwyth 617171.


LLYFRAU YSTWYTH

7 Princess Street, Aberystwyth

Dyfed SY23 1DX

Ffôn (01970) 617511

Llun-Sadwrn: 10 a.m. — 5 p.m.

Ar gau ddydd Mercher


# O'R WASG

Dyma rai cyhoeddiadau diddorol a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Gofynnwch amdanynt yn eich llyfrgell leol neu'n well fyth prynwch gopïau.

### WILLIAM MORRIS (1705-63)
**Dafydd Wyn Wiliam**
**Yr Awdur, 1995**
**Pris: £10.00**

Mae'r Parchedig Dafydd Wyn Wiliam wedi mentro i'r byd cyhoeddi unwaith eto a'r tro yma cofiant i William Morris 1705-63 yw'r cynnyrch. Sylweddoli bod trichanmlwyddiant geni William Morris yn agosáu barodd i'r awdur fynd ati i ysgrifennu'r gyfrol a hynny fel teyrnged iddo. Cyfrol ddiddorol iawn wedi ei chyflwyno yn y dull sydd mor nodweddiadol o'r awdur, yn fanwl gywir ac yn hynod ddarllenadwy. Argraffwyd y gyfrol gan O. Jones, Llangefni, ac unwaith eto mae'n bleser canmol y gwaith glân a graenus. Nifer cyfyngedig o gopïau o'r gyfrol a argraffwyd. Gellir cael copïau yn uniongyrchol oddi wrth yr awdur.

* * * *

### GWYDDONIAETH I'R GWEINIDOGION: CODIAD A MACHLUD Y TRADDODIAD GWYDDONOL YN Y COLEG PRESBYTERAIDD, CAERFYRDDIN
**R. Elwyn Hughes**
**Gwasg y Fflam, 1995**
**Pris £1.50 trwy'r post**

Yn y pamffledyn bychan hwn y mae R. Elwyn Hughes, Pentyrch, yn bwrw golwg ar hynt a helynt y traddodiad gwyddonol yng Ngholeg Caerfyrddin. Roedd Coleg Caerfyrddin yn un o'r Hen Academïau a agorwyd ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif i ddiwallu'r angen am addysg uwch ymhlith plant ymneilltuwyr a waherddid adeg hynny rhag cael mynediad i Gaer-grawnt a Rhydychen. Yr hyn sydd yn arbennig o ddiddorol am y stori hon yw'r ffaith mai nid addysg ddiwinyddol yn unig a gafwyd yn yr Hen Academïau. Rhoddir cryn dipyn o sylw i lyfrgell y Coleg yng nghorff y pamffledyn.

* * * *

### GUIDE TO THE DEPARTMENT OF MANUSCRIPTS AND RECORDS, THE NATIONAL LIBRARY OF WALES
**Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1994**
**Pris: £15.00**

Pan ddaeth Llyfrgell Genedlaethol Cymru i fodolaeth yn 1909 fe gyflwynodd Syr John Williams, Llywydd y Llyfrgell, ei gasgliad godidog o lawysgrifau yn rhodd i'r Llyfrgell a dyna osod carreg sylfaen gadarn i'r Adran ar gyfer y dyfodol. Dros y blynyddoedd ychwanegwyd yn sylweddol at y casgliad trwy bwrcas a rhodd. Mae pawb yn gwybod fod yna bob math o ddefnyddiau yn llechu ymysg daliadau'r Adran ac mae'n dda cael cyfrol sydd yn rhoi rhestr gynhwysfawr i ni o'r daliadau hynny. Fe geir yma gyflwyniadau cryno i'r casgliadau mawr, i'r archifau teuluol, i gofnodion y Sesiwn Fawr, i'r cofnodion ewyllysiol, i'r llawysgrifau canol oesol ac i'r archifau gwleidyddol. Ceir gwybodaeth hefyd am y rhestrau cyhoeddedig ac anghoeddedig sydd ar gael ac am fynegeion a chronfeydd data. Dyma gyfrol hanfodol i bob casglwr a chwilotwr.